## Dangoswch eich cefnogaeth tuag at Ffermio ym Mhrydain heddiw

Rydym yn cymryd rhan mewn Diwrnod Undod Ffermio gyda ffermwyr ledled y DU i ddangos ein cefnogaeth at yr ymgyrch #StopiwchYDrethFfermDeuluol ac i ddiolch ichi, y cyhoedd am eich cefnogaeth barhaus a hynod bwysig.
Gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni ddangos yn glir i ASau a gweinidogion bod amaethyddiaeth ledled y DU wedi uno ar gyfer gwrthod y polisi ofnadwy hwn -
polisi a addawyd na fyddai fyth yn digwydd - sy'n mynd i ddinistrio ffermydd teuluol.




## Pam cefnogi'r ymgyrch i roi Diwedd ar y Dreth Fferm Deuluol?

Rydym yn gofyn i'r llywodraeth gymryd cam yn ôl ac i ymgynghori ar y penderfyniad ar Ryddhad Eiddo Amaethyddol (APR) a'r Rhyddhad Eiddo Busnes (BPR) a gyhoeddwyd yng nghyllideb yr Hydref, lle bydd rhaid i ffermwyr a thyfwyr dalu 20% o dreth etifeddiaeth ar ffermydd sydd werth dros £1miliwn.

Mae dadansoddiadau economaidd a gynhaliwyd gennym ar y cyd â'r Cyn-drysorlys a'r Swyddfa ar gyfer Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi darganfod y byddai 75% o ffermydd teuluol masnachol yn cael eu heffeithio, yn hytrach na'r 27% a gafodd ei awgrymu gan y Llywodraeth, gyda phosibilrwydd y bydd nifer o'r ffermydd hyn yn diflannu.

**Gyda llai o ffermwyr Prydain yn tyfu bwyd, bydd y DU yn or-ddibynnol ar fewnforion - yn aml o ansawdd salach neu safonau llesiant anifeiliaid is - ar adeg lle mae ansicrwydd geowleidyddol yn debygol o gynyddu.**

### Gyda'n gilydd, rydym yn brwydro i roi diwedd ar y dreth fferm deuluol.

Gallwch ychwanegu eich enw i ddangos cefnogaeth, e-bostio eich AS, ac archebu ein hadnoddau ymgyrch.

**Sganiwch y cod QR i ddangos eich cefnogaeth.**

### Diolch ichi am eich cefnogaeth.

Gyda'n gilydd, gallwn roi pwysau ar y llywodraeth i roi diwedd ar y dreth fferm deuluol ddadleuol sydd am ddinistrio ffermydd teuluol a'n busnesau cynhyrchu bwyd ar draws y wlad.

NFU | NFU CYMRU | NFU Scotland | Ulster Farmers' Union

# 5 rheswm
## i ymuno â'r ymgyrch

Mae dros 265,000 o bobl wedi ychwanegu eu henwau i'n hymgyrch i roi diwedd ar y dreth fferm deuluol. Pam ddylech chi ymuno gyda nhw?

**1** **Nid yw'r mwyafrif o ffermydd yn ennill digon o arian i dalu'r Bil Treth Etifeddiaeth, felly byddai'n rhaid iddynt werthu ychydig o'u tir neu fusnes, sydd, yn sgil hynny, yn gallu gwneud y busnes fferm yn annichonadwy.**

Mae ffermydd yn aml yn gryf o asedau, ond yn brin o arian. Efallai bod fferm yn werthfawr ar bapur, ond heb lwyddo i werthu'r fferm, nid yw'r gwerth hwnnw yn golygu dim. Mae ffigyrau'r Llywodraeth yn dangos mai 0.5% ar gyfartaledd yw'r dychweliad ar fuddsoddiad ar gyfalaf, cyn treth ar gyfer ffermwyr.

**2** **Mae busnesau ffermio yn gorfod dargyfeirio elw i baratoi ar gyfer biliau Treth Etifeddol sylweddol yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi stop ar fuddsoddiadau mewn busnesau hirdymor sy'n cynhyrchu bwyd, yn cael effaith ar yr economi wledig ehangach sy'n dibynnu ar ffermio, a sicrwydd bwyd ein cenedl.**

Ffermwyr a thyfwyr yw gwarcheidwaid cefn gwlad. Maent yn dymuno bod yn hyderus wrth adeiladu busnesau ffermio cadarn sy'n amgylcheddol gyfeillgar, gan warchod yr amgylchedd a rhoi budd i bawb.

**3** **Nid oes unrhyw opsiynau ar gyfer ffermwyr oedrannus. Cyn cyhoeddi'r mesurau hyn, y cyngor mwyaf effeithiol o ran treth ar gyfer ffermwyr oedd cadw gafael ar eu fferm tan iddynt farw. Hyd yn oed gyda mesurau lliniaru fel y rheol rhodd saith mlynedd, mae'n bosib na fydd rhai ffermwyr yn byw'n ddigon hir i roi trefn ar eu materion mewn amser.**

Mae hyn yn rhoi ffermwyr oedrannus mewn sefyllfa ofnadwy, gan boeni os byddant yn byw'n hirach nag Ebrill 2026, pan mae'r polisi newydd yn dod i rym, y gallai eu plant golli'r fferm.

**4** **Bydd y trysorlys yn elwa mwy o fusnesau sy'n ffynnu, sy'n talu ffurfiau eraill o dreth ac yn cynnig swyddi, yn hytrach na bil Treth Etifeddol un tro gan fusnes sydd yn annichonadwy o ganlyniad.**

Er enghraifft, mae ffermwyr yn talu treth incwm busnes ac yswiriant genedlaethol cyflogwr. Maen nhw hefyd yn creu swyddi ac yn defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau lleol. Rydyn ni'n credu bod cael gwared ar APR a BPR yn debygol o godi ychydig iawn o dreth i'r trysorlys, a bydd yn cael effaith fach iawn ar gau'r bwlch £22 biliwn mewn cyllid cyhoeddus.

**5** **Nid yw'r Trysorlys wedi gofyn am gyngor ar y polisi hwn gan unrhyw un o'r maes amaethyddol - nid yw'n syndod felly nad yw'n bolisi cadarn.**

Ni ofynnodd y gweinidogion trysorlys a'r gweision sifil yn Llundain am gyngor ar y polisi hwn gan unrhyw un sydd â chysylltiadau amaethyddol. Nid hyd yn oed i'w cyd-weinidogion sy'n gyfrifol am ffermio.